

# Pecyn Recriwtio

## Ysgrifennydd Esgobaethol

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral in Bangor


















# Esgobaeth Bangor

**Mae Esgobaeth Bangor yn un o chwe esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru, wedi'i lleoli yng ngogledd-orllewin Cymru ac yn cynnwys yn bennaf siroedd Gwynedd ac Ynys Môn a rhannau o Gonwy a Phowys.**

Prif Eglwys yr esgobaeth yw Eglwys Gadeiriol Deiniol Sant, yn ninas brifysgol Bangor. Yn 2025, dathlodd yr Eglwys Gadeiriol ei phen-blwydd yn 1500 mlwydd oed ers i Deiniol Sant sefydlu cymuned fynachaidd ym Mangor tua 525 OC.

Mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang ar draws yr esgobaeth ac mae rhai ardaloedd, megis Gwynedd ac Ynys Môn, ymhlith y rhannau mwyaf Cymraeg eu hiaith yng Nghymru.

Fel Cristnogion yn Esgobaeth Bangor, rydym yn olrhain ein hanes yn ôl i bobl sanctaidd a sefydlodd gymunedau o weddi a gwasanaeth ar draws yr esgobaeth mor gynnar â'r bumed ganrif. Cedwir y seintiau Celtaidd cynnar hyn – Deiniol, Cybi, Seiriol, Tudwen, Madryn ac eraill lawer – yn fyw o hyd yn enwau ein heglwysi, ein pentrefi a'n trefi. Fil a hanner o flynyddoedd yn ddiweddarach, nid yw ein cenhadaeth wedi newid – ond mae ein cyd-destun heddiw yn un newydd ac yn heriol.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn anodd i Esgobaeth Bangor. Ynghyd â'n heglwys gadeiriol, rydym wedi ein gweld ein hunain yn y penawdau am resymau anffodus ac rydym wedi colli aelodau allweddol o'n tîm arweinyddiaeth Esgobaethol. Mae wedi dod yn amlwg nad oedd llywodraethiant yn ein helusennau esgobaethol (Bwrdd Cyllid Esgobaethol Bangor a Threftadaeth Esgobaeth Bangor) y safon yr ydym bellach yn ei disgwyl.

Mae Esgobaeth Bangor ac ymddiriedolwyr yr elusennau esgobaethol wedi ymrwymo i welliant llym ac mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau.

Bydd angen i'n Hysgrifennydd Esgobaethol newydd ein harwain drwy rai newidiadau sylweddol a bydd hefyd angen iddo/iddi weithio gyda phobl eraill i ailadeiladu morâl, adeiladu capasiti a chydymffurfiaeth.

Gellir dod o hyd i'n gweledigaeth a'n strategaeth bresennol yma: Our story - Diocese of Bangor. Mae angen i ni ddirnad a ydynt dal yn briodol i ni nawr, ond fel Esgobaeth rydym yn cydnabod bod angen i ni ddatblygu cynlluniau ar gyfer cenhadaeth, cyllid ac eiddo. Bydd gan ein Hysgrifennydd Esgobaethol newydd rôl allweddol wrth annog y gwaith cynllunio hwn.

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral in Bangor









# Ein strwythurau

## Ardaloedd Gweinidogaeth

Bellach mae'n 10 mlynedd ers sefydlu ein 27 Ardal Weinidogaeth, sydd wedi arwain i ni ddatblygu patrymau newydd o weinidogaeth. Arweinir pob Ardal Weinidogaeth gan Ficer/Arweinydd Ardal Weinidogaeth, sy'n arwain tîm o bobl, yn lleyg ac ordeiniedig, yn eu cenhadaeth leol. Gan fod pob Ardal Weinidogaeth yn un plwyf, mae un Cyngor Ardal Weinidogaeth yn cael goruchwyliaeth dros genhadaeth ac adnoddau ar draws yr Ardal Weinidogaeth.

## Synodau

Mae gennym dri Synod sydd yn cyd-ffinio'r archddiaconiaethau. Mae'r Synodau yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr o Ardaloedd Gweinidogaeth y Synod addoli Duw gyda'i gilydd, derbyn a chynnig cefnogaeth ac anogaeth i'w gilydd, rhannu arfer dda, i gymryd rhan mewn i ddeialog ynghylch prosesau esgobaethol yn ogystal ag anghenion y gymuned ehangach, a gosod amcanion cenhadaeth ar draws y Synod.



## Strwythurau Esgobaethol

Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ail-lunio ein pwyllgorau esgobaethol i greu strwythur newydd sy'n fwy syml. Fodd bynnag, nid yw'r strwythur newydd o reidrwydd wedi arwain at safon well o lywodraethiant, ac mae hyn ar hyn o bryd yn destun adolygiad allanol. Ar hyn o bryd, mae gennym:

- Y Gynhadledd Esgobaethol sy'n cynnwys cynrychiolaeth eang o ar draws yr Esgobaeth.
- Y Cyngor Esgobaethol sydd bellach yn gyfrifol am strategaeth, adnoddau a stiwardiaeth ariannol. Cyngor yw hwn sy'n gweithredu fel Pwyllgor Sefydlog y Gynhadledd Esgobaethol, ac ar yr un pryd fel cyfarfod ymddiriedolwyr Bwrdd Cyllid Esgobaethol Bangor a Ymddiriedolaeth Esgobaeth Bangor.
- Bwrdd Tai, sydd â chyfrifoldeb dros dai clerigwyr (y Bwrdd Persondy), Cymdeithas Dai Esgobaeth Bangor a Chartrefi Elusennol Esgob Rowlands.
- Y Pwyllgor Ymgynghorol Esgobaethol sydd â goruchwyliaeth dros awdurdodaeth
- Facwlti y Canghellor ar gyfer gofalu am a datblygu ein hadeiladau eglwysig.
- Uwch-staff yr Esgobaeth sy'n cyfarfod i weddïo, myfyrio, trafod a phenderfynu ar faterion gweithredol a strategol, gan ddefnyddio dawn a sgiliau ein staff esgobaethol i lunio cenhadaeth a gweinidogaeth yr Esgobaeth.
- Grŵp Cadfan sy'n dod â'n holl glerigwyr ynghyd yn rheolaidd i addoli a darganfod sut y mae Duw ar waith yn ein plith.

## Ein hunaniaeth Gymraeg

Mae Esgobaeth Bangor wedi ymrwymo i genhadaeth a gweinidogaeth ddwyieithog ledled Esgobaeth Bangor, gan gynnwys ymwelwyr, addolwyr a'n staff.

Rydym yn annog defnyddio'r Gymraeg, ac yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno dysgu a gwella eu sgiliau iaith.








# Tîm Deiniol – Y Tîm Esgobaethol

**Mae Tîm Deiniol yn gweithio ar draws Esgobaeth Bangor, gan gefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth yr esgobaeth. Mae Tîm Deiniol yn darparu arbenigedd a chefnogaeth ym meysydd megis disgyblaeth, cyllid, cyfathrebu, eiddo, ysgolion eglwysig a gweinyddiaeth.**

## Cyllid ac Eiddo

Darparu cefnogaeth esgobaethol i Ardaloedd Gweinidogaeth wrth baratoi ac weithredu ein Cynlluniau Datblygu Eiddo a'n Cynlluniau Datblygu Cyllid.

## Iaith a diwylliant Cymraeg

Cefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg gyda chynlluniau dysgu, hyfforddiant a datblygiad parhaus; creu adnoddau efengylaidd yn y Gymraeg a chefnogi Ardaloedd Gweinidogaeth i wreiddio diwylliant dwyieithog.

## Gweinidogaeth, galwedigaethau a chenhadaeth

Yn gyfrifol am feithrin disgyblion a thyfu gweinidogaethau newydd, arwain ein prosesau darganfod galwedigaeth a datblygiad parhaus timau gweinidogaeth.


## Cyfathrebu

Arwain strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu'r esgobaeth, a chefnogi cyfathrebu Eglwys Gadeiriol Deiniol Sant a llwybr pererindod Llwybr Cadfan.

## Addysg



Arwain ein gwaith strategol ac ymgysylltu ag ysgolion a'r sector addysg. Rydym yn gofalu am 16 ysgol Eglwys yng Nghymru o fewn Esgobaeth Bangor.




## Llwybr Cadfan a phererindod ysgolion

Rydym yn parhau i ddatblygu ein gweinidogaeth bererindod ar gyfer ysgolion a cheiswyr ysbrydol. Mae llwybr pererindod Llwybr Cadfan yn tyfu'n sylweddol ac yn parhau i gynnig ffordd newydd o gysylltu â ffydd, treftadaeth a chymuned.

## Archddiaconiaid


Mae Esgobaeth Bangor yn cynnwys tair archddiaconiaeth – Bangor, Ynys Môn a Meirionnydd – sy'n cefnogi cenhadaeth yr Eglwys ar draws gogledd-orllewin Cymru. Mae'r Archddiaconiaid a'u timau yn darparu arweinyddiaeth fugeiliol a gweinyddol o fewn eu harchddiaconiaethau.

## Swyddfa'r Esgob

Mae Swyddfa'r Esgob yn Esgobaeth Bangor yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer arweinyddiaeth esgobaethol, cydlynu a chefnogi.






Ysgrifennydd yr Esgobaeth
Cyfarwyddwr Addysg
Cyfarwyddwr Cyfathrebu
Trysorydd Esgobaethol
Swyddog Cyllid
Hwylusydd Systemau Cyllid
Llyfrgeidwad Archddiaconiaeth x 2
Swyddog Eiddo Archddiaconiaeth x 2
Hwylusydd y Gymraeg
Gweinyddwr Esgobaethol a CP (Chynorthwyydd Personol) i Ysgrifennydd yr Esgobaeth
Glanhawr
Rheolwr Prosiect - Llan
Swyddog Ymgysylltu Pererindodau Ysgolion
Swyddog Llwybr y Pererinion
Archddiaconiaid x 3
Gweinyddwr Archddiaconiaeth Bangor
Gweinyddwr Archddiaconiaeth Meirionnydd
Gweinyddwr Archddiaconiaeth Ynys Môn

# Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person

**Mae'r Ysgrifennydd Esgobaethol yn brif swyddog Gweinyddu'r Esgobaeth, Bwrdd Cyllid Esgobaethol Bangor, Ymddiriedolwyr Esgobaeth Bangor a Phwyllgor Sefydlog y Gynhadledd Esgobaethol. Mae'r rôl yn darparu arweinyddiaeth strategol a rheolaeth weithredol i gefnogi Esgobaeth Bangor i gyflawni ei gweledigaeth, ei chenhadaeth a'i gweinidogaeth.**

Mae'r Ysgrifennydd Esgobaethol yn adrodd ar y cyd i'r Esgob a Chadeirydd yr elusennau esgobaethol. Bydd yn gweithio'n agos gyda'r Esgob, yr Archddiaconiaid a staff uwch yr esgobaeth i sicrhau llywodraethiant effeithiol, stiwardiaeth ariannol dda a rhagoriaeth weithredol. Bydd yr Ysgrifennydd Esgobaethol yn hyrwyddo cyfathrebu dwyieithog, ac yn meithrin cydweithio ar draws yr Esgobaeth, yn ogystal â chynrychioli'r Esgobaeth mewn fforymau talaith a chenedlaethol.

## Prif Gyfrifoldebau

### Arweinyddiaeth Strategol

- Fel aelod o uwch-staff yr Esgob, gweithio ochr yn ochr â'r Esgob, staff uwch eraill, staff yr Esgobaeth, ymddiriedolwyr yr Esgobaeth a Phwyllgor Sefydlog y Gynhadledd Esgobaethol i lunio ac i weithredu strategaeth a pholisi esgobaethol.
- Darparu cyfeiriad strategol, ac arweinyddiaeth weithredol a bugeiliol i staff yr Esgobaeth.
- Meithrin diwylliant o arloesi, atebolrwydd a gwasanaeth ar draws pob adran.

### Llywodraethu a Chydymffurfiaeth

- Gweithredu fel Ysgrifennydd Cwmni i gyrff esgobaethol allweddol, gan sicrhau bod gofynion cyfreithiol, statudol, llywodraethu a therfynau amser adrodd yn cael eu cyflawni.
- Goruchwylio etholiadau i gyrff cenedlaethol ac esgobaethol, prosesau adrodd statudol a rheoli risg.
- Arwain ar ddatblygu a gweithredu polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau mewnol cadarn.
- Gweithio'n agos gyda'r Tîm Diogelu Talaith i wreiddio diogelu fel cyfrifoldeb a rennir ar draws yr esgobaeth.
- Gweithio'n agos gyda'r Tîm Cenedlaethol i sicrhau bod mentrau ar lefel y dalaith sy'n cael eu cytuno'n cael eu hyrwyddo a'u gweithredu'n gadarn.

### Goruchwyliaeth Ariannol

- Arwain prosesau cynllunio, cyllidebu ac adrodd ariannol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu halinio â blaenoriaethau'r esgobaeth.
- Goruchwylio'r berthynas â'r cyfrifwyr allanol, gan sicrhau rheolaethau ariannol cadarn a rheoli asedau.
- Cefnogi cynaliadwyedd ariannol tymor hir drwy fuddsoddi strategol, stiwardiaeth a dyrannu adnoddau.
- Cefnogi ceisiadau grant a phrosiectau ar draws yr Esgobaeth.

### Arweinyddiaeth Tîm

- Rheoli Swyddfa'r Esgobaeth a'i staff, gan hyrwyddo diwylliant dwyieithog, positif, cynhwysol a pherfformiad uchel yn y gweithle.
- Gweithio gyda'r gwasanaethau AD Cenedlaethol a Rhanbarthol i sicrhau recriwtio effeithiol, rheoli perfformiad a datblygiad staff.
- Hyrwyddo cyfathrebu mewnol ac ymgysylltiad staff drwy ddiweddariadau rheolaidd, mentrau tîm a chyfleoedd datblygu proffesiynol.

### Cefnogi Ardaloedd Gweinidogaeth a'r Glerigiaeth

- Datblygu a darparu adnoddau, hyfforddiant ac arweiniad i gefnogi Ardaloedd Gweinidogaeth a'u harweinwyr.
- Annog cyfranogiad gweithredol y glerigiaeth a'r lleyg mewn mentrau esgobaethol, gan feithrin cydweithredu a pherchnogaeth ar y cyd.

### Rheoli Gweithrediadau ac Eiddo

- Sicrhau bod eiddo ac asedau'r esgobaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn foesegol.
- Cydweithio â'r Arolygydd Persondai Esgobaethol i gynnal safonau uchel o ran tai clerigwyr a gofal eiddo.
- Goruchwylio systemau a seilwaith gweithredol i gefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithlon.

### Cydweithio a Chynrychiolaeth

- Cynrychioli'r Esgobaeth mewn rhwydweithiau eglwysig talaith, rhyng-esgobaethol a chenedlaethol.
- Adeiladu a chynnal partneriaethau strategol gyda sefydliadau allanol i hyrwyddo amcanion yr esgobaeth.
- Hyrwyddo Esgobaeth Bangor fel cymuned ffydd ddwyieithog, gynhwysol a blaengar.

Ysgrifennydd Esgobaethol
Pecyn Recriwtio

## Manyleb y Person

| Categori | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau a Phrofiad** | Profiad helaeth mewn rolau arweinyddiaeth uwch.<br>Profiad amlwg mewn cynllunio strategol, llywodraethu, goruchwyliaeth ariannol a rheoli gweithrediadau.<br>Hanes cryf o reoli timau amrywiol ac arwain newid sefydliadol.<br>Rhugldер yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gyda phrofiad o weithio mewn amgylchedd dwyieithog. | Profiad o sefydliadau ffydd-seiliedig, elusennol neu'r sector cyhoeddus.<br>Cyfarwyddyd â strwythurau a llywodraethu Esgobaeth Bangor neu esgobaethau Anglicanaidd.<br>Dealltwriaeth o rôl y glerigiaeth a'r lleyg o fewn yr eglwys. |
| **Sgiliau Arwain a Rheoli** | Arweinydd strategol ac arloesol<br>Arweinydd pendant a hyderus gyda dull o arwain sy'n gydweithredol ac yn seiliedig ar wasanaeth.<br>Arddull reoli agored ac empathetig.<br>Sgiliau rhyngbersonol cryf i adeiladu ymddiriedaeth a meithrin perthnasoedd cadarnhaol.<br>Medru datrys gwrthdaro, adeiladu timau a datblygu staff. | |
| **Sgiliau Cyfathrebu** | Cyfathrebwr tryloyw a rheolaidd.<br>Gwrandäwr gweithredol gyda sensitifrwydd diwylliannol a deallusrwydd emosiynol.<br>Yn gallu cyflwyno penderfyniadau a diweddariadau'n glir drwy lu o sianeli. | |
| **Llywodraethu a Chydymffurfiaeth** | Dealltwriaeth fanwl o lywodraethu elusennau, adrodd statudol a rheoli risg.<br>Profiad o weithredu fel ysgrifennydd i fyrddau neu gynghorau.<br>Cyfarwyddyd â diogelu ac y gallu i wreiddio diwylliant o ddiogelwch ac atebolrwydd. | |
| **Cymhwysedd Ariannol a Gweithredol** | Gallu ariannol cryf gyda phrofiad o reoli cyllidebau, cynllunio ariannol a rheoli asedau.<br>Y gallu i alinio penderfyniadau ariannol â blaenoriaethau esgobaethol.<br>Sgiliau mewn goruchwylio gweithrediadau, gan gynnwys rheoli eiddo a phrosesau AD. | |
| **Ansoddebau Personol a Gwerthoedd** | Uniondeb, gonestrwydd a thryloywder.<br>Gostyngeiddrwydd a meddylfryd sy'n canolbwyntio ar wasanaeth.<br>Egni, brwdfrydedd a gwydnwch.<br>Cristion mewn gair a gweithred, wedi ymrwymo i genhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys.*<br>Parch dwfn at draddodiadau eglwysig a chyd-destun eglwysig Cymreig | Aelod mewn gair a gweithred o'r Eglwys yng Nghymru neu eglwys mewn cymundeb â hi. |

** Mae'n ofyniad galwedigaethol yn unol ag Atodlen 9 paragraff 1 o'r Ddeddf Cydraddoldeb bod deiliad y swydd hon yn Gristion mewn gair a gweithred.*

## Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r Ysgrifennydd Esgobaethol yn gweithio o Dŷ Deiniol – Swyddfa'r Esgobaeth – sydd wedi'i lleoli ym Mangor, Gwynedd.

Bydd y rôl hon yn mynnu teithio ar draws yr Esgobaeth, yn ogystal ag i gyfarfodydd a digwyddiadau talaith a chenedlaethol. Rhaid i ymgeiswyr feddu ar drwydded yrru lawn a chael mynediad at gar.

Bydd y rôl hefyd yn golygu gweithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd, digwyddiadau a chyflawni cyfrifoldebau eraill yn ôl yr angen.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob unigolyn cymwys, waeth beth fo oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, rhyw neu gyfeiriad rhywiol.*

* Mae'n ofyniad galwedigaethol yn unol ag Atodlen 9 paragraff 1 o'r Ddeddf Cydraddoldeb bod deiliad y swydd hon yn Gristion mewn gair a gweithred.

## Sut i Ymgeiso

Mae dwy ran i'r broses ymgeisio, y gellir eu cwblhau naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg, yn ôl eich dewis chi.

### Rhan 1

Cyflwynwch eich CV ynghyd â Datganiad Cefnogol (ni ddylai pob dogfen fod yn fwy na 3 thudalen) sy'n darparu tystiolaeth glir yn erbyn y meini prawf a nodir yn y fanyleb person. Dylai eich datganiad cefnogol egluro eich cymhelliant dros ymgeisio am y swydd a darparu enghreifftiau clir, wedi'u tynnu o'ch profiad, sy'n dangos eich gallu i fodloni'r meini prawf.

### Rhan 2

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich CV a'ch datganiad cefnogol, ewch i https://myint.video/aUH7VwFNp8 i gyflwyno ymateb fideo 3 munud i'r cwestiwn canlynol:

**Beth sy'n eich cyffroi ynglŷn â'r cyfle i fod yn Ysgrifennydd Esgobaethol i Esgobaeth Bangor?**

Cyflwynwch eich cais drwy **www.gatenbysanderson.com/job/**GSe123154

Gofynnir i chi ddarparu eich manylion cyswllt, cwblhau ffurflen monitro cydraddoldeb, a rhoi gwybod i ni am unrhyw ddyddiadau pan nad ydych ar gael ar gyfer cyfweliad neu pan allai fod gennych anhawster gyda'r amserlen ddangosol. Rhaid i chi hefyd ddarparu manylion dau ganolwr, a dylai un ohonynt fod yn eich cyflogwr presennol neu eich cyflogwr mwyaf diweddar. Ni chysylltir â'r canolwyr hyd gam olaf y broses gyfweld,
a dim ond gyda'ch caniatâd ymlaen llaw.